

THOMAS, WILLIAM (bu farw 1554), ysgolhaig mewn Eidaleg, a chlerc Cyfrin Gyngor y brenin Edward VI

Enw: William Thomas

Dyddiad marw: 1554

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: ysgolhaig mewn Eidaleg, a chlerc Cyfrin Gyngor y brenin Edward VI

Maes gweithgaredd: Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithasol, Gweinyddiaeth Sifil; Ysgolheictod ac Ieithoedd

Awdur: William Llewelyn Davies

Disgrifiwyd ei yrfa yn bur lawn gan [Syr Daniel Lleufer Thomas](#) yn y *D.N.B.* yn 1898, a gellir rhoddi amlinelliad o'r disgrifiad hwnnw fel hyn: Cymro ydoedd o sir Faesyfed (sir Frycheiniog ?) a gafodd ei addysg yn Rhydychen (o'r hyn lleiaf, derbyniwyd g r o'r un enw yn faglor yn y gyfraith ganon ar 2 Rhagfyr 1529) ac a dreuliodd tua phum mlynedd yn yr Eidal (Bologna, Padua, etc.), lle yr ysgrifennodd amddiffyniad i'r brenin Harri VIII - *Il Pellegrino Inglese ne'l quale si defends l'innocente & la sincera vita de'l pio & religioso re d'Inghilterra Henrico ottavo*, 1552, yn Fenis, efallai; gweler cyfieithiad Saesneg, wedi ei olygu gan J. A. Froude, a'i gyhoeddi yn 1861. Dychwelodd i Loegr yn 1549, y flwyddyn y cyhoeddwyd dau waith ganddo - *Historie of Italie* (arg. arall yn 1561) a *Of the Vanities of the World*. Cyhoeddwyd ei *Principal Rules of the Italian Grammar, with a Dictionarie for the better vnderstandynge of Boccace, Petrarcha, and Dante*, yn 1550 (arg. eraill yn 1560?, 1562, 1567). Gwnaethpwyd ef yn glerc Cyfrin Gyngor Edward VI yn 1550; rhoddwyd iddo brebend yn eglwys gadeiriol S. Paul, Llundain; cafodd hefyd dollau Llanandras (Presteign), Llanfair-ym-Muellt, ac 'Elfael,' ynghyd â phersoniaeth Presteign a'i ddewis yn noddwr ficeriaeth yr un lle (26 Hydref 1552). Daeth yn athro gwleidyddol i'r brenin, a thynnodd allan gyfres o gyfarwyddiadau iddo; manylion yn *D.N.B.* Ym mis Ebrill 1551 fe'i dewiswyd yn aelod o'r llys-genhadaeth, o dan farcwis Northampton, a aeth i Ffrainc ym Mehefin i geisio trefnu priodas rhwng Edward a'r dywysoges Ffrenig Elisabeth. Cyflwynasai i'r brenin cyn hyn ei gyfieithiad Saesneg o waith mewn Eidaleg - sef hanes Josaphat Barbaro o'i deithiau i'r Dwyrain; cyhoeddwyd y cyfieithiad hwn gan yr Hakluyt Society yn 1873, gyda rhagair gan yr arglwydd Stanley o Alderley. Pan ddaeth Mari i'r orsedd, collodd Thomas ei holl swyddi, etc. Bu iddo ran yng nghynllwyn Wyatt, 1553-4, cymerwyd ef i'r ddalfa, cyhuddwyd ef o gynllwynio i roddi Mari i farwolaeth, a chafodd ei ddienyddio ar 18 Mai 1554.

Ysgrifennai [D. Lleufer Thomas](#) yn 1898. Wedi hynny darganfuwyd ffeithiau eraill yngl n â gyrfa William Thomas, a defnyddiwyd y rhan fwyaf ohonynt gan E. R. Adair yn ei 'William Thomas: A Forgotten Clerk of the Privy Council' a gynhwysir yn *Tudor Studies presented ... to Albert Frederick Pollard* (London, 1924). Awgryma Adair y gallai Thomas, enw yr hwn a gysylltid gan draddodiad â Lanthomas, plwyf Llanelwys, sir Frycheiniog, fod naill ai yn fab hynaf Thomas ap Philip ap Bleddyn neu mai ef oedd William, unig fab Walter Thomas, Crughywel, sir Frycheiniog, a Writtle, Essex, gwas fryddlon Thomas Cromwell; yr oedd Walter Thomas yn byw yn y Temple, Llundain, ym mis Awst 1536. Awgrymasai [Lleufer Thomas](#) mai William Thomas yr erthygl hon oedd y William Thomas a fu, gyda chomisiynwyr eraill, yn chwilio i mewn i enghreifftiau o ofyn am or-dalu yn sir Faesyfed ac ar y goror - mater yr anfonwyd o Lwydlo adroddiad i Gromwell arno gan y comisiynwyr hyn (27 Ionawr 1533-4). Fel y dengys Adair, William Thomas oedd y Sais [sic] cyntaf i ddangos yn ei weithiau fod ganddo ryw wybodaeth am Machiavelli ac amgyffrediad o werth athroniaeth wleidyddol yr Eidalwr hwnnw. Y mae'n arwyddocaol hefyd, medd Adair, mai Thomas oedd y cyntaf i ganmol gwerth yr iaith Saesneg fel iaith i'w hysgrifennu er ei mwyn ei hun ac nid (yn unig) fel cyfrwng i ddysgu Groeg neu Ladin, ac iddo gyngchori dysgu Saesneg yn yr ysgolion; yr oedd felly yn gwneud yr awgrymiadau hyn tua 30 mlynedd cyn i Richard Mulcaster, y g r a gaiff y clod fel arloeswr yn y mater, wneuthur hynny.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Oxford Dictionary of National Biography, a'r ffynonellau a roddir yno, gan gynnwys

William Thomas, *The Works of William Thomas, Clerk of the Privy Council in the year 1549. Consisting of a very curious and circumstantial account of the reign of King Henry the Eight, in which the causes of the Reformation are most particularly and candidly exhibited. To which are added six essays on questions of great moment to the state, written by the same author at the command and for the private information of King Edward the Sixth. The whole literally transcribed from the manuscript in the Cotton Library* (Llundain 1774)

NLW MS 12855

Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, i, 153-4

Dolenni Ychwanegol

VIAF: [49103420](#)

Wikidata: [Q1344706](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

